# Hobïau

**Wyt ti'n hoffi... ?**
*= Do you like...?*

**Ydw, rydw i'n hoffi...** *= Yes I like...*
**Nac ydw, dydw i ddim yn hoffi...** *= No I don't like...*

| | |
|---|---|
| **canu** | *singing* |
| **darllen** | *reading* |
| **chwarae pêl-droed** | *playing football* |
| **chwarae tennis** | *playing tennis* |
| **cadw'n heini** | *keeping fit* |
| **gwrando ar gerddoriaeth** | *listening to music* |
| **gwylio rygbi** | *watching rugby* |
| **pysgota** | *fishing* |
| **garddio** | *gardening* |
| **dawnsio** | *dancing* |
| **chwarae golff** | *playing golf* |
| **bwyta mas** | *eating out* |
| **coginio** | *cooking* |
| **nofio** | *swimming* |
| **rhedeg** | *running* |

**Pam?** = *why?*
**Achos...** = *because...*

| ☺ | ☹ |
|---|---|
| **mae'n hwyl**<br>*it's fun* | **mae'n ddiflas**<br>*it's boring* |
| **mae'n ddiddorol**<br>*it's interesting* | **mae'n ych a fi!**<br>*it's horrible* |
| **mae'n fy nghadw i'n heini**<br>*it keeps me fit* | **does dim diddordeb gyda fi**<br>*I've no interest in it* |
| **mae'n fy ymlacio**<br>*it relaxes me* | **mae'n wastaff amser**<br>*it's a waste of time* |
| **rydw i'n hoffi cwrdd â phobl newydd**<br>*I like meeting new people* | **mae'n rhy ddrud**<br>*it's too expensive* |

# HAMDDEN

Cam I

**Gweithgareddau**

1. Gofynnwch i 5 person yn y dosbarth beth maen nhw'n hoffi wneud ar y penwythnos. Wedyn, dywedwch wrth eich grŵp chi beth yw diddordebau'r 5 person rydych chi wedi holi.

2. Gofynnwch gwestiynau i'ch partner er mwyn llenwi'r grid. Ydy'r ddau grid yn edrych yr un peth erbyn y diwedd?

**Partner 1**

| | Ben | Lucy | Twm | Ann | Lyn |
|---|---|---|---|---|---|
| bowlio deg | ☺ | ☹ | | | ☹ |
| nofio | ☹ | | ☹ | ☹ | |
| gymnasteg | | ☺ | | ☹ | ☺ |
| gwylio'r teledu | ☺ | | ☺ | ☺ | |
| tennis | | | | | |

**Partner 2**

| | Ben | Lucy | Twm | Ann | Lyn |
|---|---|---|---|---|---|
| bowlio deg | | | ☺ | ☺ | |
| nofio | | ☺ | | | ☺ |
| gymnasteg | ☹ | | ☹ | | |
| gwylio'r teledu | | ☹ | | | ☹ |
| tennis | ☺ | ☺ | ☹ | ☹ | ☺ |

Nawr, ysgrifennwch frawddegau i ddweud beth mae pawb yn hoffi wneud.

3. Edrychwch ar ddyddiadur Ken yn y golofn nesaf. Nawr ysgrifennwch eich dyddiadur chi am y penwythnos.

4. Darllenwch y swigod (bubbles) yn y golofn nesaf. Ysgrifennwch swigen amdanoch chi eich hunan (about yourself) a darllenwch e i'ch grŵp. Wedyn cyflwynwch (introduce) Gwilym ac Anna hefyd. Dyma enghraifft - '... ydy e / o. Mae e'n / o'n hoffi ...'

P1 Beth wyt ti'n hoffi wneud ar y penwythnos?
P2 Dw i'n hoffi edrych ar y teledu, nofio a chwarae ar y cyfrifiadur. Beth wyt ti'n hoffi wneud?
P1 Dw i'n hoffi edrych ar y teledu ar nos Wener ond ar ddydd Sadwrn dw i'n hoffi chwarae gemau.
P2 Dw i'n chwarae rygbi dydd Sul, yn y parc.
P1 Wyt ti'n casglu rhywbeth?
P2 Nac ydw, ond rydw i'n hoffi gwneud cardiau.

**Dyddiadur Ken**

Dw i'n mynd i'r clwb cic focsio bore dydd Sadwrn. Yn y prynhawn, dw i'n gwneud gwaith cartref ac yn y nos, dw i'n hoffi darllen.

Bore dydd Sul dw i'n mynd i weld Nain. Dw i'n chwarae yn y parc yn y prynhawn ac yn y nos, dw i'n gwneud gwaith cartref - ych a fi!

Anna ydw i. Fy niddordebau i ydy casglu stampiau. Dw i'n mynd i'r clwb casglu stampiau bob nos Wener.

Gwilym ydw i. Rydw i'n hoffi beicio efo ffrindiau ar y penwythnos.

Kate ydw i. Bob bore dydd Sadwrn dw i'n merlota gyda ffrindiau. Yn y prynhawn dw i'n nofio ac yn y nos dw i'n hoffi gwylio'r teledu gyda Mam a Dad.